GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

**Canfyddiadau arolwg rhanbarthol Castell-nedd Port Talbot 2025:**

Iechyd a llesiant, ansicrwydd ariannol, ffynonellau gwybodaeth a newidiadau yn TATA Steel

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2025

# Cefndir

- Mae **Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (ASIC)** yn banel cenedlaethol o drigolion 16+ oed a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i alluogi ymgysylltu rheolaidd â'r cyhoedd i lywio polisïau ac arfer iechyd y cyhoedd. Mae'r mecanwaith sefydledig yn rhoi cyfle i gynnal arolygon wedi'u teilwra ychwanegol i gyd-fynd â chyflwyno'r arolwg cenedlaethol i gasglu mewnwelediadau ychwanegol ar ranbarthau neu bynciau penodol.

- I gefnogi ymateb Ffrwd Waith Cysylltiadau Cymunedol a Llesiant Bwrdd Pontio TATA Steel UK, comisiynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru arolwg rhanbarthol fel rhan o Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus i ymchwilio i statws iechyd, cymdeithasol ac ariannol pobl sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot wrth i'r ardal brofi'r newidiadau yn TATA Steel.

- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau Arolwg Rhanbarthol Castell-nedd Port Talbot a gynhaliwyd gyda 301 o bobl oedd yn byw yn yr ardal rhwng Ionawr a Mawrth 2025.

- Cynhaliwyd yr arolwg rhanbarthol ochr yn ochr â'r arolwg cenedlaethol rheolaidd (Adroddiad ASIC Arolwg Chwefror 2025; yn agor mewn ffenestr newydd), gyda rhai cwestiynau cyfatebol wedi'u cynnwys yn y ddau arolwg. Mae cymariaethau rhwng y data rhanbarthol a'r data cenedlaethol a gasglwyd yn yr un cyfnod yn bosibl ond dylid eu trin yn ofalus oherwydd dulliau recriwtio gwahanol. Cesglir y data cenedlaethol trwy banel o gyfranogwyr sy'n dewis eu hunain i fod yn rhan o arolygon sy'n canolbwyntio ar bynciau iechyd y cyhoedd ac felly gallant gael eu heffeithio gan ragfarn tuag at drigolion sydd â mwy o ddiddordeb mewn materion iechyd y cyhoedd a gofal iechyd.

- Mae rhagor o wybodaeth am Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus a chanfyddiadau'r arolwg cenedlaethol wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan (Cyhoeddiadau Panel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus - Iechyd Cyhoeddus Cymru; yn agor mewn ffenestr newydd).

# Diben arolwg rhanbarthol Castell-nedd Port Talbot

- Ers 2024, mae dros 2,000 o bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi cael eu diswyddo gan TATA Steel. Mae'r ardal felly wedi bod yn wynebu digwyddiad diweithdra torfol, neu MUE. Diffinnir MUE fel newid mawr mewn un cyflogwr mawr sy'n arwain at golli nifer fawr o swyddi mewn ardal leol (Davies et al., 2017; yn agor mewn ffenestr newydd). Mae'n effeithio ar y rhai sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y cyflogwr mawr, yn ogystal ag effeithio'n anuniongyrchol ar y gadwyn gyflenwi ehangach a busnesau lleol. I gael rhagor o wybodaeth am y MUE yng Nghastell-nedd Port Talbot, gweler Datganiad Ysgrifenedig: Tata Steel UK Ltd (25 Ebrill 2024) |LLYWODRAETH CYMRU (yn agor mewn ffenestr newydd).

- Mae tystiolaeth yn dangos y gall MUE effeithio'n sylweddol ar iechyd a sefyllfa gymdeithasol ac economaidd unigolion, teuluoedd a chymunedau (gweler Davies et al. 2017 am adolygiad o safbwynt iechyd y cyhoedd). I grynhoi, adroddwyd bod pobl yn ymgymryd ag ymddygiadau nad ydynt yn iach (e.e. yfed mwy o alcohol, camddefnyddio cyffuriau), eu bod â risg uwch o salwch corfforol a meddyliol (e.e. marwolaeth o ganlyniad i drawiad ar y galon neu strôc, hunanladdiad), a phrofi lefelau is o lesiant (e.e. profi caledi ariannol, boddhad isel â bywyd). Yn ogystal, mae cymuned yn cael ei heffeithio trwy golli cydlyniant cymunedol, mwy o gystadleuaeth am swyddi, a gostyngiad yng ngwerth tai, sydd i gyd yn eu tro yn gallu arwain at ansicrwydd ariannol. Ansicrwydd ariannol yw pan nad oes gan unigolyn neu aelwyd y cyllid i fodloni eu rhwymedigaethau ariannol cyfredol a chynnal safon byw resymol.

- Gall deall effeithiau MUE ar ardal lywio'r ymateb iechyd y cyhoedd i liniaru canlyniadau negyddol ac i ddylunio mesurau cadernid sy'n cefnogi'r gymuned (y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol yn ogystal â'u teulu, eu ffrindiau a'r gymuned ehangach).



Davies, Homolova, Grey a Bellis. (2019). Digwyddiadau Diweithdra Torfol (MUEs) – Atal ac Ymateb o Safbwynt Iechyd y Cyhoedd. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru

- **Canfyddiadau allweddol:** Cymerodd 301 o gyfranogwyr ran yn Arolwg Rhanbarthol Castell-nedd Port Talbot (28 Ionawr i 15 Mawrth 2025).

## Iechyd a Llesiant

- Pan ofynnwyd iddo faint o effaith cadarnhaol neu negyddol yr oedd wyth ffactor wedi bod yn ei chael ar eu hiechyd a'u lles dros y pythefnos blaenorol, y pedwar prif ffactor cadarnhaol a negyddol oedd:

  Effaith cadarnhaol:
  - Perthnasoedd cymdeithasol (83%),
  - Yr ardal maen nhw'n byw ynddi (68%),
  - Diogelwch tai (65%), a
  - Y gallu i gyrchu cymorth ar gyfer pryderon iechyd (43%).

  Effaith negyddol:
  - Y gallu i gyrchu cymorth ar gyfer pryderon iechyd (31%),
  - Rhagolygon swyddi yn y dyfodol (12%),
  - Yr ardal maen nhw'n byw ynddi (12%), a
  - Diogelwch tai (9%).
- Adroddwyd teimlad uchel o werth chweil (74%), hapusrwydd (72%), a boddhad bywyd (67%) gan dros ddau draean o bobl.

## Ansicrwydd ariannol

- Dywedodd 15% o bobl y bu angen cymorth ariannol arnynt yn ystod y chwe mis diwethaf.
- Dywedodd 32% o bobl nad oeddent yn ddiogel yn ariannol.
- Roedd pryderon ariannol am y chwe mis nesaf yn cynnwys costau:
  - Ynni (56%),
  - Bwyd (44%), a
  - Thai (26%).

## Ffynonellau gwybodaeth

- Adroddwyd mai'r tair ffordd orau o gael gwybodaeth i bobl am y cymorth sydd ar gael iddynt oedd: y cyfryngau cymdeithasol (57%), gwefannau (26%) ac e-bost (24%).
- Roedd 49% y cyfranogwyr yn gwybod bod cymorth iechyd meddwl ar gael yn yr ardal.

## Newidiadau yn TATA Steel

- Roedd 8% o'r cyfranogwyr wedi'u heffeithio'n bersonol gan y newidiadau yn TATA Steel neu roedd rhywun yn eu haelwyd wedi'u heffeithio.
- At ei gilydd, dywedodd 44% o bobl eu bod yn adnabod rhywun (gan gynnwys eu hunain) a oedd wedi cael ei effeithio gan y newidiadau.
- Pan ofynnwyd iddynt ba fath o effaith yr oeddent yn ei feddwl y byddai'r newidiadau yn TATA Steel yn ei chael ar Gastell-nedd Port Talbot ar draws naw metrig gwahanol, roedd mwy na hanner yn teimlo y byddai'r canlynol yn cael eu heffeithio'n negyddol:
  - Cyfleoedd cyflogaeth (89%),
  - Iechyd meddwl pobl (83%),
  - Ysbryd cymunedol (73%),
  - Y farchnad dai (58%), a
  - Phlant a phobl ifanc (58%)
- Roedd mwy na thri chwarter o bobl (76%) yn teimlo y byddai'r newidiadau'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd aer yn yr ardal.

# Dull

- Gosodwyd targed o 300 o gyfweliadau wyneb yn wyneb â phobl 16 oed a hŷn, sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Defnyddiwyd samplu cwota i osod niferoedd targed ar gyfer cyfweliadau yn ôl oedran, rhyw, cwintel amddifadedd ac ethnigrwydd o fwrdeistref sirol Castell-nedd Port Talbot yn seiliedig ar y data poblogaeth sydd ar gael ar gyfer yr ardal (Cyfrifiad 2021).
- Recriwtiwyd cyfranogwyr o'r boblogaeth gyffredinol gyfan; ni chawsant eu recriwtio yn seiliedig ar eu cysylltiad â'r MUE. Darparwyd statws cyflogaeth y cyfranogwyr i ddangos hyn.
- Casglwyd data rhwng 28 Ionawr a 15 Mawrth 2025.
- Datblygwyd yr arolwg rhanbarthol mewn partneriaeth â Grŵp Llesiant a Chydlyniant Cymunedol Castell-nedd Port Talbot.
- Canolbwyntiodd yr arolwg ar:
  - Iechyd a llesiant;
  - Ansicrwydd ariannol;
  - Ffynonellau gwybodaeth; a
  - Newidiadau yn TATA Steel.
- Ni roddwyd cymhelliant ariannol i gyfranogwyr am gymryd rhan. Rydym yn ddiolchgar iawn i drigolion Castell-nedd Port Talbot a roddodd o'u hamser gwerthfawr i gymryd rhan yn yr arolwg.

Oni nodir yn wahanol, mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wedi'u pwysoli i adlewyrchu demograffeg poblogaeth Castell-nedd Port Talbot yn ôl oedran, rhyw a chwintel amddifadedd.

Noder: Efallai na fydd y canrannau yn yr adroddiad hwn yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

# Sampl arolwg

- Cynhaliwyd cyfanswm o 301 o gyfweliadau, gyda'r arolwg yn cymryd 14 munud ac 11 eiliad ar gyfartaledd i'w gwblhau.
- Mae'r tabl hwn yn rhoi dadansoddiad o sampl yr arolwg a gyflawnwyd ar draws y meysydd cwota oedran, rhyw, cwintel amddifadedd ac ethnigrwydd. Roedd y cwotâu poblogaeth darged yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021 ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ac fe'u dangosir yma i'w cymharu â sampl yr arolwg.
- Statws cyflogaeth sampl yr arolwg oedd:
  - Cyflogedig llawn amser: 26%
  - Cyflogedig rhan-amser: 17%
  - Hunangyflogedig: 3%
  - Myfyriwr: 6%
  - Di-waith: 7%
  - Salwch hirdymor, anabl neu ofalwr: 12%
  - Wedi ymddeol: 28%
  - Arall: 1%

| | | Sampl arolwg (N = 301) | | Poblogaeth ardal |
|---|---|---|---|---|
| | | n | % | % |
| **Grŵp oedran (blynyddoedd)** | 16-29 | 76 | 25% | 20% |
| | 30-49 | 77 | 26% | 29% |
| | 50-69 | 91 | 30% | 32% |
| | 70+ | 57 | 19% | 19% |
| **Rhyw** | Gwryw | 143 | 48% | 49% |
| | Benyw | 158 | 53% | 51% |
| **Cwintel amddifadedd** | 1 - Mwyaf difreintiedig | 120 | 40% | 35% |
| | 2 | 79 | 26% | 30% |
| | 3 | 27 | 9% | 15% |
| | 4 | 49 | 16% | 10% |
| | 5 - Lleiaf difreintiedig | 26 | 9% | 11% |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 292 | 97% | 97% |
| | Grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog | 5 | 2% | 2% |
| | Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig | <5 | 1% | <1% |
| | Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Cymreig neu Ddu Prydeinig | <5 | 1% | 1% |
| | Grŵp Ethnig Arall | 0 | 0% | <1% |


Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Iechyd a llesiant

Mae'r adran hon yn cynnwys cwestiynau llesiant Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS4) a chawsant eu categoreiddio o raddfa Likert 11 pwynt i bedwar categori yn unol â chanllawiau SYG (Canllaw ar lesiant personol i ddefnyddwyr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; yn agor mewn ffenestr newydd). Dosbarthwyd y trothwyon ar gyfer 'boddhad bywyd', 'gwerth chweil' a 'hapusrwydd' fel a ganlyn: isel (0 i 4), canolig (5 i 6), uchel (7 i 8), ac uchel iawn (9 i 10). Categorïwyd 'pryder' fel: isel iawn (0 i 1), isel (2 i 3), canolig (4 i 5), ac uchel (6 i 10). Defnyddiwyd y graddfa Likert pwynt-11 i gyfri'r cymedr wedi'i bwysoli .

# Iechyd a Llesiant


## Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi â'ch bywyd y dyddiau hyn, lle mae 0 yn "ddim yn fodlon o gwbl" a 10 yn "hollol fodlon"?




Gwell gennyf beidio â dweud: 0%

# Iechyd a Llesiant


**Yn gyffredinol, i ba raddau ydych chi'n teimlo bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil, lle mae 0 yn "ddim yn werth chweil o gwbl" a 10 yn "hollol werth chweil"?**




Gwell gennyf beidio â dweud: 0%

# Iechyd a Llesiant


## Ar y cyfan, pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe, lle mae 0 yn "ddim yn hapus o gwbl" a 10 yn "hollol hapus"?




Gwell gennyf beidio â dweud: 0%

# Iechyd a Llesiant

## Ar raddfa lle mae 0 yn "ddim yn bryderus o gwbl" a 10 yn "hollol bryderus", yn gyffredinol, pa mor bryderus oeddech chi'n teimlo ddoe?




Gwell gennyf beidio â dweud: 0%

# Iechyd a Llesiant

## Dros y pythefnos diwethaf, faint o effaith gadarnhaol neu negyddol y mae'r canlynol wedi bod yn ei chael ar eich iechyd a'ch lles?

| | Positif iawn | Braidd yn bositif | Dim effaith | Braidd yn negyddol | Negyddol iawn | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eich cysylltiadau cymdeithasol (e.e. teulu, ffrindiau agos) | 51% | 32% | 12% | 4% | Llai na 1% | - |
| Eich diogelwch tai | 40% | 25% | 26% | 7% | 2% | - |
| Yr ardal yr ydych yn byw ynddi | 30% | 38% | 19% | 11% | 1% | - |
| Eich cyfrifoldebau rhianta neu ofal plant | 21% | 10% | 16% | 4% | 1% | 48% |
| Diogelwch eich swydd | 19% | 9% | 18% | 5% | 2% | 48% |
| Eich gallu i gyrchu cymorth ar gyfer unrhyw bryderon iechyd | 14% | 29% | 21% | 23% | 8% | 4% |
| Eich rhagolygon swydd ar gyfer y dyfodol | 13% | 16% | 22% | 9% | 3% | 36% |
| Gwirfoddoli yn eich cymuned (ffurfiol ac anffurfiol) | 10% | 11% | 21% | 1% | Llai na 1% | 57% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: yn hafal i neu'n llai na 1%.
Mae cysylltnod mewn cell yn dangos nad oedd yr opsiwn ymateb 'ddim yn berthnasol' ar gael ar gyfer y datganiad hwnnw.

# Iechyd a Llesiant

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol.**

**Rwy'n gallu cael y cymorth sydd ei angen arnaf gan...**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Fy nheulu a ffrindiau agos | 63% | 28% | 5% | 1% | llai na 1% | - | 3% |
| Fy mhartner neu briod | 41% | 17% | 8% | 1% | 1% | - | 33% |
| Fy nghydweithwyr | 14% | 20% | 13% | 3% | 1% | - | 50% |
| Fy nghyflogwr | 12% | 16% | 13% | 5% | 1% | - | 52% |
| Fy nghymuned leol | 16% | 32% | 27% | 9% | 1% | 15% | - |
| Fy ngwasanaethau iechyd lleol | 14% | 38% | 16% | 22% | 6% | 4% | - |
| Sefydliadau cymunedol | 11% | 19% | 30% | 9% | 1% | 28% | - |
| Fy nghyngor lleol | 6% | 21% | 31% | 14% | 5% | 24% | - |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: yn hafal i neu'n llai na 1%.
Mae cysylltnod mewn cell yn dangos nad oedd yr opsiwn ymateb 'ddim yn berthnasol' ar gael ar gyfer y datganiad hwnnw.

# Iechyd a Llesiant

## O'i gymharu â chwe mis yn ôl, a fyddech chi'n dweud bod y canlynol wedi cynyddu, gostwng, neu aros yr un peth?

| | Wedi cynyddu | Wedi gostwng | Wedi aros yr un peth | Ddim yn berthnasol - dwi byth yn gwneud hyn |
|---|---|---|---|---|
| Faint o weithgaredd corfforol rydych chi'n ei wneud (e.e. cerdded, campfa, rhedeg) | 30% | 51% | 14% | 5% |
| Pa mor iach rydych chi'n bwyta | 23% | 66% | 8% | 2% |
| Yr amser rydych chi'n ei dreulio yn cymdeithasu â phobl eraill | 10% | 65% | 23% | 2% |
| Eich defnydd o feddyginiaeth (h.y. ar bresgripsiwn a thros y cownter) | 10% | 58% | 5% | 27% |
| Faint rydych chi'n ei ysmygu (tybaco / fêpio) | 7% | 13% | 4% | 75% |
| Faint o alcohol rydych chi'n ei yfed | 6% | 50% | 14% | 30% |
| Y swm rydych chi'n ei gamblo | 2% | 11% | 4% | 83% |
| Eich defnydd o gyffuriau anghyfreithlon | Llai na 1% | 6% | 1% | 93% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: yn hafal i neu'n llai na 1%


Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Ansicrwydd ariannol

Ansicrwydd ariannol yw pan nad oes gan unigolyn neu aelwyd yr arian i fforddio eu rhwymedigaethau ariannol yn hyderus a chynnal safon byw resymol. Mae tystiolaeth wedi dangos y gall ansicrwydd ariannol gael effaith negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol pobl, a dylid ei ystyried ar lefel unigolion, teuluoedd a chymunedau wrth ymateb i MUE (Davies et al., 2017; yn agor mewn ffenestr newydd).

# Ansicrwydd ariannol

**Wrth feddwl am gyllid eich cartref, pa un o'r opsiynau canlynol sy'n adlewyrchu orau eich sefyllfa bresennol a'r sefyllfa rydych chi'n meddwl y byddwch chi ynddi, yn y chwe mis nesaf?** Gofynnwyd y cwestiwn hwn ar ffurf dau gwestiwn annibynnol.



# Ansicrwydd ariannol


**Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi'n meddwl fydd yn bryderon ariannol i'ch cartref yn y chwe mis nesaf?**
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

| | Byddant |
|---|---|
| Costau ynni (e.e. gwresogi, coginio) | 56% |
| Costau bwyd | 44% |
| Costau tai (e.e. rhent/ taliadau morgais) | 26% |
| Car/costau cludiant cyhoeddus | 24% |
| Darparu ar gyfer anghenion fy mhlentyn/plant (o dan 18 oed; ac eithrio gofal plant) | 13% |
| Gofal plant | 5% |
| Arall | 2% |
| Dydw i ddim yn credu y bydd gennyf unrhyw bryderon ariannol yn ystod y chwe mis nesaf | 26% |

Cafodd ymatebion testun rhydd i 'Arall' eu hailgodio a'u cynnwys mewn categorïau presennol lle bo'n briodol. Er enghraifft, cafodd ymatebion yn ymwneud â biliau dŵr a chostau cynnal a chadw tai eu cynnwys yn y categori 'costau tai'. Gwell gennyf beidio â dweud: 2%

# Ansicrwydd ariannol

**Ydych chi wedi bod angen unrhyw gymorth ariannol (e.e. benthyciad, banc bwyd, cymorth tai) yn y chwe mis diwethaf?**




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

Yn gyfyngedig i'r rhai a ddywedodd eu bod wedi bod angen cymorth ariannol yn ystod y chwe mis diwethaf (n = 46).

**Pa un o'r opsiynau cymorth ariannol canlynol ydych chi wedi'i ddefnyddio yn ystod y chwe mis diwethaf?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

| | Ydw |
|---|---|
| Teulu neu ffrindiau | 60% |
| Banc bwyd | 21% |
| Banc neu gymdeithas adeiladu | 14% |
| Arall | 6% |
| Nid wyf wedi defnyddio cymorth ariannol er bod ei angen arnaf (ymateb unigryw) | 5% |

Cafodd yr opsiynau ymateb canlynol eu codio yn y categori 'arall' oherwydd nifer isel o ymatebion: benthyciad brys, cymorth tai, cymorth cyflogadwyedd a hyfforddi, Cyngor ar Bopeth, credyd brys i wresogi eich cartref. Gwell gennyf beidio â dweud: 0%

# Ansicrwydd ariannol

Yn gyfyngedig i'r rhai a ddywedodd eu bod wedi defnyddio cymorth ariannol yn ystod y chwe mis diwethaf (n = 40; heb ei bwysoli).

**A gawsoch chi unrhyw anawsterau wrth gael gafael ar y cymorth?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

| | Do |
|---|---|
| Roeddwn i'n teimlo cywilydd wrth gael mynediad iddo | 18% |
| Arall | 18% |
| Na - ni chefais unrhyw anawsterau (ymateb unigryw) | 65% |

Ymateb testun agored a gafwyd: “Mae yna gymorth ar gael i bob golwg, ond nid yw cael rhestr o wefannau i edrych arnynt yn gymorth go iawn. Rydw i'n teimlo wedi fy siomi a'm mod i wedi cael fy ysgubo o dan y carped."

Cafodd yr opsiynau ymateb canlynol eu cynnwys yn y categori 'arall' oherwydd nifer isel o ymatebion: Ni chyrhaeddais y trothwy(on) ar gyfer cymorth, ni allwn i deithio i'r cymorth, cefais fy rhoi ar restr aros. Gwell gennyf beidio â dweud: 0%

# Ansicrwydd ariannol


**A yw eich statws cyflogaeth wedi newid yn ystod y chwe mis diwethaf?**




Gwell gennyf beidio â dweud: llai na 1%

O'r 28 o bobl a adroddodd fod eu statws cyflogaeth wedi newid yn ystod y chwe mis diwethaf, roedd y rhesymau dros y newid yn cynnwys ymddeol yn gynnar neu fel y cynlluniwyd, cael eu diswyddo, dechrau swydd newydd, aros yn yr un swydd ond oriau naill ai wedi cynyddu neu leihau, dyrchafiad, absenoldeb mamolaeth, neu resymau salwch ac iechyd.

**A ydych yn disgwyl i'ch statws cyflogaeth newid yn y chwe mis nesaf?**




GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Ffynonellau gwybodaeth

Gofynnodd yr adran hon i bobl am eu hymwybyddiaeth o ffynonellau gwybodaeth gyffredinol, a sut yr hoffent i unrhyw gefnogaeth gael ei gyfathrebu iddynt. Nid oedd y cwestiynau yn canolbwyntio ar wybodaeth sy'n ymwneud â newidiadau yn TATA Steel.

# Ffynonellau gwybodaeth


**Pa un o'r mathau canlynol o gymorth ydych chi'n gwybod sydd ar gael i bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot?**
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)




Gwell gennyf beidio â dweud: 3%

# Ffynonellau gwybodaeth

**Mae llawer o ffyrdd y gellir dweud wrth bobl am y cymorth sydd ar gael iddynt. O'r rhestr ganlynol, beth fyddai'r tair ffordd orau o gael gwybodaeth i chi?**





Roedd enghreifftiau o ymatebion 'arall' a ddarparwyd yn cynnwys ar lafar, trwy eu meddygfa, a thrwy'r llyfrgell.

Roedd cyfranogwyr yn gallu dewis hyd at dri opsiwn; dewisodd 57% dri opsiwn, dewisodd 14% ddau opsiwn, a dewisodd 29% un opsiwn. Mae'r graffiau'n dangos canran y cyfranogwyr a ddewisodd bob opsiwn.

# Newidiadau yn TATA Steel

# Newidiadau yn TATA Steel

**A ydych chi neu rywun agos atoch wedi cael eich effeithio gan y newidiadau yn TATA Steel?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)




O'r bobl a nododd eu bod nhw'n bersonol a/neu rywun yn eu haelwyd wedi'u heffeithio gan y newidiadau yn TATA Steel, nododd rhai eu bod wedi cael eu diswyddo, wedi colli eu swydd, neu wedi gadael/yn gadael oherwydd ansicrwydd.

Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Newidiadau yn TATA Steel

## Pa fath o effaith ydych chi'n meddwl y bydd cau TATA Steel yn ei chael ar y canlynol yng Nghastell-nedd Port Talbot?

| | Effaith bositif | Dim effaith | Effaith negyddol | Gwell gennyf beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|
| Cyfleoedd cyflogaeth | 1% | 5% | 89% | 6% |
| Iechyd meddwl pobl | 3% | 8% | 83% | 5% |
| Ysbryd cymunedol | 6% | 16% | 73% | 5% |
| Marchnad dai | 13% | 20% | 58% | 9% |
| Plant a phobl ifanc | 10% | 26% | 58% | 6% |
| Iechyd corfforol pobl | 23% | 20% | 48% | 10% |
| Cyfraddau trosedd | 2% | 35% | 47% | 16% |
| Twristiaeth | 14% | 55% | 21% | 11% |
| Ansawdd aer | 76% | 16% | 2% | 6% |

# Ydych chi eisiau bod yn rhan o Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus?


Rydym yn recriwtio unigolion i ymuno ag Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus yn barhaus gan ein bod eisiau siarad ag amrywiaeth eang o unigolion ledled Cymru.

**Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn 16+ oed, dyma eich cyfle i gael eich clywed.**

**Ydych chi eisiau dysgu mwy am sut i fyw bywyd iach a llewyrchus?**

**Ydych chi eisiau dysgu sut i helpu eich cymuned i ffynnu?**

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru.**




**SiaradICCymru.com**

**02920 227744**

**SiaradICCymru@wales.nhs.uk**

# Cyfranwyr y prosiect

**Tîm y Prosiect:**
Dr Catherine Sharp[1], Yr Athro Karen Hughes[1], Dr Charlotte Grey[2], Lucia Homolova[2], Carys Dale[1]

**[1] Y Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi mewn Iechyd a Llesiant**

**[2] Y Gyfarwyddiaeth Ymchwil, Data a Digidol**

**Diolchiadau am Gymorth Prosiect Ehangach:**

Y Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, WHO CC: Dr Sumina Azam, Dr Rebecca Hill, Yr Athro Liz Green

Y Gyfarwyddiaeth Ymchwil, Digidol a Data: Yr Athro Alisha Davies

Ffrwd Waith Cysylltiadau Cymunedol a Llesiant Bwrdd Pontio TATA Steel UK

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

Working together for a healthier Wales